



# Datganiad Newyddion / News Release

MR 999

Ionawr 27, 2020

I'w Ryddhau

## Cynlluniau campws cymunedol i Fachynlleth

Gallai campws dysgu a hamdden gyda'r mwyaf blaenllaw gael ei greu fel rhan o gynlluniau ar gyfer codi adeilad ar gyfer ysgol pob oed newydd yng ngogledd Powys, meddai'r cyngor sir.

Mae Cyngor Sir Powys a Freedom Leisure wedi cynnal trafodaethau cychwynnol i ystyried ymgorffori cyfleusterau hamdden fel rhan o'r adeilad newydd ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen ym Machynlleth.

Mae'r ddau sefydliad ynghyd ag uwch-dîm arwain Ysgol Bro Hyddgen yn cydweithio i ddarganfod pa mor hyfyw fyddai cyfuno cyfleusterau addysg a hamdden Machynlleth fel rhan o'r prosiect.

Mae angen rhagor o waith dylunio, ymchwilio ac astudiaethau dichonolrwydd ar y cynigion cyn gallu cadarnhau yn union pa gyfleusterau y bydd modd eu cynnig ar y campws cymunedol.

Mae'r cyngor wedi ail-edrych ar ei gynlluniau ar gyfer adeilad newydd ysgol wedi oedi gyda'r prosiect oherwydd methiant y contractwyr, sef Dawnus, y llynedd.

Bydd y cyfleuster yn cael ei godi ar gampws caeau chwarae'r ysgol uwchradd bresennol, a'r adeilad presennol yn cael ei ddymchwel i wneud lle i'r campws cymunedol newydd.

Dywedodd y Cyng Phyl Davies, Aelod Cabinet Addysg ac Eiddo: "Mae methiant Dawnus wedi achosi oedi gyda'n cynlluniau i godi adeilad newydd i Ysgol Bro Hyddgen.

"Fodd bynnag, mae'r oedi yma wedi rhoi cyfle i ni ail-edrych ar y cynlluniau i sicrhau eu bod yn ateb y diben ac yn helpu i'r ysgol gyflenwi gofynion y cwricwlwm cenedlaethol newydd a fydd mewn grym o 2022.

"Mae darparu amgylchoedd addysgu a dysgu o safon uchel yn un o nodau ein Gweledigaeth 2025, ac ry'n ni wedi ymrwymo i ddarparu adeilad ysgol newydd ym Machynlleth.

“Os gallwn gynnwys cyfleusterau hamdden, byddai'r adeilad newydd yn wirioneddol yn gyfleuster sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac o fudd i ddysgwyr a phreswylwyr Machynlleth a'r cyffiniau.”

Dyweddodd y Cyng Rachel Powell, Aelod Portffolio'r Cabinet ar faterion Pobl Ifanc a Diwylliant: “Mae nifer y broblemau ynghlwm â Chanolfan Hamdden Bro Ddyfi sy'n golygu bod angen buddsoddiad sylweddol yn yr adeilad. 'Dyw hi ond yn deg ein bod yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnwys cyfleusterau hamdden fel rhan o'r ysgol newydd i Ysgol Bro Hyddgen.

“Os gellir cynnwys cyfleusterau hamdden, yna byddwn yn gallu sicrhau darpariaeth hamdden i'r dref am flynyddoedd lawer.”

DIWEDD

**MR 999**

**January 27, 2020**

**For Immediate Release**

## **Community campus plans for Machynlleth**

A state-of-the-art learning and leisure community campus could be built as part of plans for a replacement all-through school in north Powys, the county council has said.

Powys County Council and Freedom Leisure have held early discussions to consider incorporating leisure facilities as part of the new replacement building for Ysgol Bro Hyddgen in Machynlleth.

Both organisations and Ysgol Bro Hyddgen's senior leadership team are working together to look at the viability of combining Machynlleth's education and leisure facilities as part of the project.

The proposals are subject to further design, investigation and feasibility work before the exact confirmation of what facilities are possible at the community campus.

The council has re-visited its plans for the replacement school after the project was delayed following the collapse of contractor Dawnus last year.

The facility will be located on the current secondary campus playing fields with the existing school building being demolished to accommodate the new community campus.

Cllr Phyl Davies, Cabinet Member for Education and Property, said: “The collapse of Dawnus has delayed our plans for a replacement school for Ysgol Bro Hyddgen.

“However, this delay has presented us with an opportunity to revisit the plans to ensure that they are fit-for-purpose and will help the school deliver the requirements of the new national curriculum that will come in from 2022.

“Providing high quality teaching and learning environments is one of the aims of our Vision 2025 and we are committed to providing a new replacement school in Machynlleth.

“If we are able to include leisure facilities, the new build would truly be a community focussed facility that would benefit learners and residents in Machynlleth and the surrounding area.”

Cllr Rachel Powell, Cabinet Member for Young People and Culture, said: “There are a number of issues with Bro Ddyfi Leisure Centre which require significant investment. It is only right that we explore the possibility of including leisure facilities as part of the new school for Ysgol Bro Hyddgen.

“If leisure facilities can be included, then we will be able to secure leisure provision for the town for many years to come.”

ENDS